

## Cymhwysedd a Llywodraethu

Mae'n bwysig ein bod yn bodloni'r cyhoedd a'r Llywodraeth fod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n briodol ac yn ddoeth. Un o'r ffyrdd y gallwn roi'r sicrwydd hwnnw yw drwy wneud yn siŵr bod y sefydliadau sy'n cyflwyno ceisiadau yn gadarn.

Bydd y mathau o sefydliadau sy'n gymwys ar gyfer pob rhaglen gyllido a weithredir gennym yn amrywio ac amlinellir hyn yn glir yng nghanllawiau pob cynllun.

Fel arfer, gall sefydliadau wneud cais os ydynt wedi'u lleoli yng Nghymru neu yn y DU a'u bod wedi'u cyfansoddi'n ffurfiol yn un o'r canlynol:

- Cwmni Cyfyngedig drwy Warant
- elusen gofrestredig (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusennol)
- Sefydliad Corfforedig Elusennol
- Cwmni Budd Cymunedol
- Cwmni Cyfyngedig drwy Gyfranddaliadau (gweler y meini prawf ar gyfer budd cyhoeddus isod)
- Cymdeithas Anghorfforedig
- Partneriaeth, gan gynnwys Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig
- Awdurdod lleol, Prifysgol neu Gorff Cyhoeddus arall
- ysgol (dim ond drwy raglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau y gellir gwneud cais)

Ymhlith y sefydliadau na allant wneud cais am gyllid mae:

- adrannau'r Llywodraeth
- sefydliadau y tu allan i'r DU

Fodd bynnag, gall sefydliadau y tu allan i'r DU fod yn bartner mewn cais gan brosiect cyn belled â bod y budd clir i'r cyhoedd yn berthnasol i Gymru. Gweler y meini prawf cymhwysedd yng nghanllawiau'r rhaglen ariannu rydych yn ymgeisio amdani.

Os nad ydych wedi gwneud cais am gyllid gennym erioed o'r blaen:

- bydd angen i chi uwchlwytho copi wedi'i lofnodi o'ch dogfen lywodraethu i'n porth ar-lein cyn y gallwch wneud cais

Os ydych wedi gwneud cais am gyllid gennym o'r blaen:

- os nad ydych wedi cyflwyno'ch dogfen lywodraethu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, **neu** os yw wedi'i diweddarau ers y tro diwethaf i chi ei chyflwyno, bydd angen i chi uwchlwytho copi **wedi'i lofnodi** o'ch dogfen lywodraethu i'n porth ar-lein cyn y gallwch wneud cais.

Yn Atodiad 1 mae tabl sy'n amlinellu'r mathau o sefydliadau, a'r hyn y bydd angen i ni ei weld yn eich dogfennau llywodraethu. Darllenwch hwn yn ofalus.

## Atodiad 1 – Strwythurau Sefydliadol a Llywodraethu

Mae'r tabl yn amlinellu'r mathau o sefydliadau rydym yn gallu eu hariannu, a'r hyn y bydd angen i ni ei weld yn eich dogfennau llywodraethu. Darllenwch hwn yn ofalus.

Os na allwch weld eich math chi o sefydliad ar y rhestr, neu os nad ydych yn siŵr a yw'ch sefydliad yn gymwys, cysylltwch â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth drwy e-bostio [grantiau@celf.cymru](mailto:grantiau@celf.cymru)

Strwythur Sefydliadol	Gofynion Llywodraethu
<ul style="list-style-type: none"><li>• Cwmni Cyfyngedig drwy Warant</li><li>• Sefydliad Corfforedig Elusennol</li><li>• Cwmni Budd Cymunedol</li><li>• Ymddiriedolaeth Elusennol</li></ul>	<p>Rhaid bod gan y sefydliad o leiaf ddau gyfarwyddwr/ymddiriedolwr nad ydynt yn perthyn neu nad ydynt yn byw yn yr un cyfeiriad.</p> <p>Rhaid i ddogfennau llywodraethu:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• gael eu llofnodi gan o leiaf ddau gyfarwyddwr/ymddiriedolwr</li><li>• cael eu cofrestru â Thy'r Cwmnïau a/neu'r Comisiwn Elusennau</li><li>• nodi y caiff cyfarfodydd bwrdd rheolaidd eu cynnal</li><li>• cynnwys cworwm priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau</li><li>• cynnwys Cymal Diddymu neu Glo Asedau priodol (gweler isod am arweiniad)</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Cwmni Cyfyngedig drwy Gyfranddaliadau</li></ul>	<p>Rhaid bod gan y sefydliad o leiaf ddau gyfarwyddwr/ymddiriedolwr nad ydynt yn perthyn neu nad ydynt yn byw yn yr un cyfeiriad.</p> <p>Rhaid i ddogfennau llywodraethu:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• gael eu llofnodi gan o leiaf ddau gyfarwyddwr/ymddiriedolwr</li><li>• cael eu cofrestru â Thy'r Cwmnïau a/neu'r Comisiwn Elusennau.</li></ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• nodi y caiff cyfarfodydd bwrdd rheolaidd eu cynnal</li> <li>• cynnwys cworwm priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymdeithas Anghorfforedig</li> </ul>	<p>Rhaid bod gan y sefydliad o leiaf ddau ymddiriedolwr nad ydynt yn perthyn neu nad ydynt yn byw yn yr un cyfeiriad</p> <p>Rhaid i ddogfennau llywodraethu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gael eu llofnodi gan o leiaf ddau gyfarwyddwr/ymddiriedolwr</li> <li>• nodi y caiff cyfarfodydd rheolaidd eu cynnal gan fwrdd neu gorff llywodraethu</li> <li>• cynnwys cworwm priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau</li> <li>• cynnwys Cymal Diddymu neu Glo Asedau priodol (gweler isod am arweiniad)</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byrddau Iechyd</li> <li>• Prifysgolion</li> <li>• Awdurdodau Lleol</li> <li>• Sefydliadau a lywodraethir gan yr uchod</li> </ul>	<p>Nid oes angen dogfennau llywodraethu ar y sefydliadau hyn, ond bydd angen i ni weld llythyrau o gefnogaeth gan ddau uwch-aelod o staff.</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig</li> <li>• Partneriaeth Cyfyngedig</li> <li>• Partneriaethau</li> </ul>	<p>Rhaid bod gan y sefydliad o leiaf ddau aelod/partner nad ydynt yn perthyn neu nad ydynt yn byw yn yr un cyfeiriad</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaid i gytundebau partneriaeth:</li> <li>• gael eu llofnodi gan bob aelod/partner</li> <li>• nodi y caiff cyfarfodydd partneriaeth rheolaidd eu cynnal</li> <li>• cynnwys cworwm priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• cynnwys Cymal Diddymu priodol</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Partneriaethau Band</li> </ul>	<p>Rhaid i gytundeb partneriaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gael ei lofnodi gan yr holl bartneriaid</li> <li>• Rhaid iddo hefyd roi manylion:</li> <li>• trefniadau ariannol eich band</li> <li>• sut rydych chi'n gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'r band</li> <li>• sut rydych chi'n rheoli offer y grŵp</li> <li>• sut rydych chi'n rheoli newid mewn aelodaeth a beth sy'n digwydd os bydd aelod yn gadael</li> <li>• beth sy'n digwydd os bydd y band yn chwalu</li> <li>• sut rydych chi'n rheoli perchnogaeth recordiadau grŵp, hawlfraint cyhoeddi ac incwm</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Corfforaethau Statudol</li> </ul>	<p>Siaradwch ag un o Swyddogion Cyngor y Celfyddydau cyn gwneud cais</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymdeithasau Tai</li> </ul>	<p>Defnyddiwch y tabl uchod i nodi eich strwythur</p>

Nid oes rhaid i'ch sefydliad gynnwys yn benodol “y celfyddydau” yn amcanion eich dogfennau llywodraethu, ond byddem yn annog hyn yn gryf. Gall roi sicrwydd ychwanegol i ni ynghylch sail artistig y prosiect rydych yn gwneud cais ar ei gyfer.

## Nodyn am Ddiffiniadau

Rydym yn diffinio ymddiriedolwyr sy'n perthyn fel a ganlyn:

- Aelodau'r teulu sy'n cwmpasu mam, tad, brawd, chwaer, mab, merch, nain neu daid.
- Perthnasau drwy briodas sy'n cwmpasu priod, mab neu ferch yng nghyfraith, a mam neu dad yng nghyfraith.

Mae Cymal Diddymu yn nodi beth fydd yn digwydd i unrhyw asedau sy'n weddill (sy'n cynnwys arian parod ac asedau eraill) – os bydd y sefydliad yn cael ei ddirwyn i ben neu ei ddiddymu. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn mynnu y caiff unrhyw asedau sy'n weddill eu trosglwyddo i sefydliad arall sydd ag amcanion tebyg. Mae hyn yn sicrhau bod buddsoddi arian cyhoeddus yn y celfyddydau yn cael ei ddiogelu.

Mae Clo Asedau yn sicrhau bod asedau sefydliad (gan gynnwys unrhyw elw neu arian dros ben arall sy'n deillio o'i weithgareddau) yn cael eu defnyddio er budd y gymuned.